# RHEOLI GWRYCHOEDD

Mae gwrychoedd yn fwy na ffiniau caeau yn unig. Maen nhw'n nodweddion tirwedd hanesyddol, sy'n darparu llu o fanteision i ffermydd a natur. Pan maen nhw'n cael eu rheoli'n dda, maen nhw'n gallu darparu lloches i dda byw, rhoi hwb i iechyd pridd a bod yn noddfa i fywyd gwyllt brodorol. Mae gwrychoedd yn ased gwerthfawr i unrhyw fferm, gan helpu i feithrin gwytnwch yn eich busnes.




Gall gwrychoedd fod o fudd i'ch fferm mewn sawl ffordd, gan gynnig lloches a chysgod i dda byw, yn ogystal â thamaid ychwanegol i bori arno. Gall hyn helpu i roi hwb i'w systemau imiwnedd, lleihau problemau llyngyr, a chadw lefelau microfaethynnau yn gytbwys. Mae gwrychoedd hefyd yn cysgodi cnydau, gan leihau difrod i'r blagur ac oerfel gwynt, ar yr un pryd â'u helpu i fanteisio ar faetholion na fyddent yn eu cyrraedd fel arall. Mae priddoedd sy'n cael cysgod gan wrychoedd yn cadw'n gynhesach sy'n golygu y gallwch ymestyn eich tymhorau tyfu a phori. Mae gwreiddiau dwfn y gwrychoedd yn sefydlogi priddoedd, gan wneud eich caeau'n fwy gwydn rhag sychder a llifogydd, ac yn lleihau dŵr ffo. Pan fydd gennych wrychoedd amrywiol, maent yn denu pob math o rywogaethau buddiol—fel ysglyfaethwyr naturiol ar gyfer plâu fel pryfed gleision. Yn ogystal â'r holl fanteision hyn, gallwch fondocio neu blygu gwrychoedd i gynhyrchu sglodion pren a thanwydd coed o ansawdd uchel mewn ffordd gynaliadwy.

# RHEOLI GWRYCHOEDD

Mae gwrychoedd yn rhan ddeinamig ac amrywiol o'ch fferm, ond mae angen y rheolaeth iawn arnynt i gadw'n iach ac yn gynhyrchiol. Mae'r gwrych delfrydol yn drwchus, yn doreithiog ac yn cynnwys coed, llwyni a phlanhigion blodeuol amrywiol.

Er mwyn creu a chynnal hyn, gellir rheoli gwrychoedd ar gylch 20-40 mlynedd, fel yr amlinellir isod:

## CYLCH RHEOLI COED




**1.** Plannu, llenwi bylchau neu adfywio drwy bondocio (hyd at 5% o gyfanswm gwrychoedd fferm) neu blygu'r gwrychoedd. Cadw coed gwrych sefydlog ac ystyrio ychwanegu mwy.



**2.** Gall gwrychoedd sydd wedi'u ffensio o afael da byw/ceirw, a gwrychoedd sydd newydd gael eu plannu neu eu hadnewyddu cael eu tocio'n gynyddrannol bob blwyddyn am 5 mlynedd i annog twf trwchus o'r bôn.

**HYD Y CYLCH = 20 - 40 MLYNEDD**



**3.** Gadael i'r gwrychoedd dyfu'n dal drwy gynyddu uchder y trimio'n raddol. Tocio bob 2-3 blynedd, yn ddelfrydol ddiwedd y gaeaf, er mwyn i adar allu bwydo ar yr aeron a'r ffrwythau drwy'r misoedd oerach. Cofiwch osgoi tocio yn ystod y tymor bridio adar.



**4.** Pan fydd y gwrych wedi tyfu mewn hyd ac wedi mynd yn drwchus, nid oes angen ei reoli mwyach a bydd yn adeiladu gwerth ecolegol i'r busnes fferm.

I gael rhagor o wybodaeth am ba gam mae eich gwrychoedd a chyngor rheoli priodol, mae People's Trust for Endangered Species wedi creu proses asesu gwrychoedd – ewch i'w gwefan i gael rhagor o fanylion.

Gall system reoli gylchol arbed costau ffustio blynyddol i chi, yn ogystal â darparu ffynhonnell gynaliadwy o gynnyrch pren a sicrhau'r holl fanteision cysylltiedig i'ch fferm.

Diolch i Dr Lindsay Whistance am ei chyfraniad.

Mae logo Coed Cadw yn nod masnach cofrestredig. Mae Coed Cadw yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr rhif 294344 ac yn yr Alban rhif SC038885.

Cwmni nid-er-elw cyfyngedig drwy warant. Rhif Cofrestru yn Lloegr rhif 1982873.

Mae'r daflen hon wedi'i gwneud yn bosibl diolch i chwaraewyr y People's Postcode Lottery.

COED CADW WOODLAND TRUST

PEOPLE'S POSTCODE LOTTERY

POSTCODE GREEN TRUST

FSC MIX Paper FSC® C189282

DC00541